# Ysbryd-oliaeth

Trem y Coed
Rhuthun

12 Medi

Annwyl Olygydd

**Ysbryd-oliaeth**

Ar ôl darllen eich erthygl yr wythnos diwethaf am Sam a Fflur Jones, roedd rhaid i mi ysgrifennu atoch chi er mwyn dweud cymaint rwy'n eu hedmygu. Maen nhw'n haeddu ein llongyfarchiadau am ddechrau menter newydd!

Byddai wedi bod yn ddigon hawdd i'r ddau deimlo'n ddiflas ac yn ddiobaith ar ôl i'r ffatri lle roedden nhw wedi bod yn gweithio am flynyddoedd gau - a hynny fis ar ôl iddyn nhw briodi! Ond na, chwarae teg iddyn nhw, beth wnaethon nhw oedd meddwl am ffordd newydd o ennill eu bara. Dylai eu stori fod yn ysbrydoliaeth i ni i gyd!

Rhag ofn bod rhywun sy'n darllen y rhifyn hwn heb ddarllen rhifyn yr wythnos diwethaf o'r cylchgrawn, sôn ydw i am fenter newydd Sam a Fflur Jones, sef sefydlu cwmni o'r enw **Ysbryd-oliaeth**. Mae'r cwmni'n trefnu nosweithiau mewn cestyll a hen adeiladau ar hyd a lled Cymru er mwyn rhoi cyfle i bobl chwilio am ysbrydion - a hynny am ffi sydd, yn fy marn i, yn rhesymol tu hwnt. Gan nad ydw i'n credu mewn ysbrydion, fy hun, fyddwn i ddim eisiau mynd i un o'r nosweithiau hyn, ond fy newis i yw hynny - pawb at y peth y bo, ynté!

Ar ôl darllen yr erthygl yr wythnos diwethaf, es i i'w gwefan er mwyn gweld yn union beth roedden nhw'n ei gynnig, a rhaid i mi ddweud ei bod yn safonol a phroffesiynol iawn. Mae'r adran **Cwestiynau a Ofynnir yn Aml** yn ddefnyddiol iawn ac mae'n cynnig atebion i'r cwestiynau rwy'n siŵr y byddai unrhyw gwsmer yn eu gofyn, e.e. Pa fath o ddillad sy'n addas ar gyfer noson o'r fath? (Rhai cynnes, gydag esgidiau cryf.); Oes hawl gan bobl i ddefnyddio camerâu a chamerâu fideo? (Oes.); Pa fath o fwyd maen nhw'n darparu? (Bwffe oer) ac ati.

Mae adran ddiddorol ar rai o'r lleoedd maen nhw'n ymweld â nhw hefyd. Ar hyn o bryd, mae'r cwmni'n trefnu teithiau i adfeilion - neu adeiladau sydd wedi gweld dyddiau gwell. Mae eu nosweithiau'n dechrau am 10.00 y nos ac yn gorffen am 2.00 y bore, gyda digon o fwyd oer a diod boeth ar gael yn eu cerbyd pwrpasol. Tybed ydyn nhw wedi meddwl mynd i hen westai a hen dafarndai sydd, yn ôl pob sôn, yn cynnwys ysbryd neu ddau? Mae'n siŵr y bydden nhw'n gallu dod i delerau da gyda pherchnogion y lleoedd yma. Petaen nhw'n cael cynnal Nosweithiau Hel Ysbrydion yno, bydden nhw'n denu mwy o ymwelwyr i aros dros nos - a byddai hyn yn ychwanegu at incwm y gwestai a'r tafarndai.

Hoffwn ddymuno'n dda i'r pâr ifanc gyda'u menter newydd. Mae'n braf gweld pobl sydd wedi cael siom yn llwyddo fel hyn.

Da iawn wir!

J. Smith